JONES, BENJAMIN ('P[rif] A[rwyddfardd] Môn '; 1788 - 1841), bardd, llenor, a Bedyddiwr pybyr

Enw: Benjamin Jones
Ffugenw: P[rif] A[rwyddfardd] Môn
Dyddiad geni: 1788
Dyddiad marw: 1841
Priod: Mary Jones (née Parry)
Rhiant: Elizabeth Jones (née Roberts)
Rhiant: William Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd, llenor, a Bedyddiwr pybyr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: Benjamin George Owens

Ganwyd yn 1788 yn fab i William Jones, Treddaniel, un o ddiaconiaid cyntaf y Bedyddwyr yng Nghaergybi, ac Elizabeth Roberts, merch William Roberts, y Garregfawr. Bedyddiwyd ef yng Nghaergybi gan Christmas Evans yn 1811, ac yno y treuliodd ei oes, fel dilledydd, hyd ei farwolaeth ar 19 Chwefror 1841. Priododd, 12 Hydref 1810, Mary, merch Edward Parry o Gaergybi, a ganed iddynt 13 o blant.

Cofir ef yn bennaf am ei ddadleuon bedydd â David Owen ('Brutus') a Michael Roberts, Pwllheli. Sgrifennodd i *Seren Gomer*, a chyhoeddodd *Athrawiaeth Bedydd*, 1830; *Y Cronicl, neu Draethawd ar Fedydd*, 1831; *Temperance v. Teetotalism*, 1838; *An Elegy on the death of Benjamin B. Jones, the eldest surviving child of B. Jones of Holyhead*, 1824; ac *Amddiffyniad o Brynedigaeth Neillduol*, 1832, yr olaf yn gyfieithiad o Saesneg William Rushton, ieu., Lerpwl. Cadwyd amryw o'i lawysgrifau personol yng nghasgliad William Roberts ('Nefydd') yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac yn eu plith ddarn o hanes y Bedyddwyr ym Môn.

Awdur

Benjamin George Owens

Ffynonellau

Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru

NLW MSS 7123-4, 7163-6, 7773-4

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732653

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu